

CLWB GOLFF MACHYNLLETH

Tŷ'r Clwb yn rhedeg ar ynni'r haul

Mae yna ddau fath gwahanol o dechnoleg sy'n dwyn yr enw "paneli haul". Mae Clwb Golf Machynlleth wedi gosod y ddau fath.


Mae'r paneli ar y dde'n cynhyrchu ynni trydanol. Eu henw technegol yw paneli "ffotofoltaidd" neu PV. Maent yn trawsnewid ymbelydredd yr haul yn drydan DC (cerrynt union). Mae gwrthdröydd yn yr adeilad yn trawsnewid hyn wedyn yn drydan AC (cerrynt eiledol), sy'n cydweddu â'r prif gyflenwad trydan. Mae unrhyw drydan nad yw'n cael ei ddefnyddio gan y Clwb yn cael ei fwydo i mewn i'r prif gyflenwad i'w ddefnyddio mewn mannau eraill.

Mae'r paneli ar y chwith yn twymo dŵr i'w ddefnyddio yn Nhŷ'r Clwb. Mae'r tiwbiau gwyrdd yn dal gwres yn yr un modd â thŷ gwyrdd. Mae'r gwres yma'n cael ei

drosglwyddo wedyn i system ddŵr poeth yr adeilad trwy gyfrwng platiau amsugno o fetel.

Mae Tŷ'r Clwb Golf yn adeilad ardderchog ar gyfer technolegau ynni'r haul. Mae pobl yn ei ddefnyddio trwy'r rhan fwyaf o'r haf, pan fydd adnoddau ynni haul ar eu mwyaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r to, sy'n wynebu'r de, heb gysgod.

Cefnogwyd y gwaith o osod y system gan Raglen Adeiladu Carbon Isel Llywodraeth y DU a Chronfeydd Strwythurol yr Undeb Ewropeaidd trwy gyfrwng Glasu ac Asiantaeth Ynni Hafren Gwy. Mae'n bleser gan y Clwb gymryd rhan ym Menter Biosffer Dyfi UNESCO trwy leihau'r maint o ynni carbon-seiliedig y mae'n ei ddefnyddio.



MACHYNLLETH GOLF CLUB

Solar Powered Golf

There are two distinct technologies that are both known as "solar panels". Machynlleth Golf Club has installed both types.

The panels on the right generate electricity. Their technical name is "photovoltaic" or PVs. They convert solar radiation to DC (direct current) electricity. An inverter inside the building then converts this to AC (alternating current) electricity, which is compatible with the mains. Any electricity not used by the Club is fed into the mains for use elsewhere.

The panels on the left heat water for use in the clubhouse. The glass tubes trap heat much like a greenhouse. This heat is then transferred to the building's hot water system via metal absorption plates.

The Golf Clubhouse is an excellent building for solar technologies. The roof is largely unshaded and faces south. People use it most in the summer when the solar resource is greatest.

The installation was supported by the UK Government's Low Carbon Building Programme and the European Union's Structural Funds via Glasu and Severn Wye Energy Agency. The Club is pleased to be participating in the UNESCO Dyfi Biosphere initiative by reducing its use of carbon-based energy.



I gael rhagor o fanylion ymwelwch ag: www.swea.co.uk www.glasu.org.uk
For further information visit: www.swea.co.uk www.glasu.org.uk